Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
South Wales Fire and Rescue Service

## Ymladdwr Tân y System Ddyletswydd Gyflawn

## Recriwtio 2024

### Cyflogau Ymladdwyr Tân

**Ymladdwr Tân (Hyfforddai) £27,178.00 Per Annum**

**Yn codi i £28,310.00 ar ôl cwblhau Cwrs Hyfforddiant Cychwynnol 13 Wythnos o hyd**

**Yn codi i £36,226.00 ar ôl cwblhau cymhwyster Ymladdwr Tân**

**I wneud De Cymru'n ddiogelach wrth leihau risg**

Mae gan Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru ddyletswydd statudol ar gyfer darpariaeth Tân ac Achub brys ar draws yr Awdurdodau Unedol o fewn ei ardal ddaearyddol. Er mwyn cyflawni'r ddyletswydd hon a chadw cymunedau De Cymru'n Ddiogel ill ddau, rydym yn gweithio gyda chydweithwyr o wasanaethau ac asiantaethau rheng flaen eraill. Rydym yn cyflogi criwiau o Ymladdwyr Tân Llawn Amser mewn un ar hugain o Orsafoedd Tân ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf, Bro Morgannwg, Caerffili, Merthyr Tudful, Blaenau Gwent, Torfaen, Casnewydd a Chaerdydd. Mae rôl Ymladdwr Tân System Dyletswydd Llawn Amser yn ymgorffori elfennau adweithiol a rhagweithiol ill ddau.

Mae ein Diffoddwyr Tân yn ymateb i amrywiaeth o ddigwyddiadau gan gynnwys tanau, gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd, gollyngiadau cemegol, achub anifeiliaid, llifogydd, a thrychinebau naturiol eraill. Maent hefyd yn darparu gwasanaethau ataliol ac addysgol pwysig i gymunedau De Cymru. Mae diffoddwyr tân yn cyfathrebu â gwahanol grwpiau cymunedol, yn enwedig oedolion sy'n agored i niwed, yr henoed, a phlant. Mae ein gwaith ataliol yn mynd â ni i mewn i gartrefi pobl i gynnal ymweliadau Diogel ac Iach a gosod dyfeisiau canfod tân. Rydym hefyd yn mynychu ysgolion a lleoliadau cymunedol i roi sgyrsiau, arddangosiadau a chyflwyniadau sy'n addysgu plant a'r cyhoedd am ddiogelwch.

Bydd y broses ddethol ar gyfer ymgeiswyr sy'n cyrraedd y rhestr fer yn cynnwys Profion Gallu, Asesiadau Corfforol ac Ymarferol a Chyfweliadau.

Mae penodiad ar gyfer y rôl hon yn amodol ar gyflawni gwiriad Manwl y Rhestr(au) Gwaharddedig gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Sylwch y bydd y gwiriad hwn yn nodi unrhyw euogfarnau neu rybuddion sydd wedi darfod a heb ddarfod. Cyn y gwneir unrhyw gynigion ffurfiol bydd yn ofynnol i ymgeiswyr llwyddiannus gael Prawf Cyffuriau ac Alcohol.

<u>Mae'n ofynnol i ymgeiswyr</u> : -

- fod dros 17 mlwydd a 6 mis oed ar yr adeg y cyflwynir y cais.
- fod yn gymwys i fyw a gweithio yn y DU a bod gennych brawf o hawl i weithio.
- wedi cymhwyso mewn Sgiliau Rhifedd a Llythrennedd (TGAU Saesneg a Mathemateg neu Sgiliau Hanfodol Lefel 2).
- feddu ar drwydded yrru lawn y DU ar adeg y cais.
- allu nofio heb gymorth mewn dŵr agored.

Gellir canfod mwy o fanylion mewn perthynas â'r swydd hon o fewn y Swydd-Ddisgrifiad a'r Fanyleb Person yn y pecyn gwybodaeth Recriwtio.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw **19/02/2024 am 12 Hanner dydd.**

Dylid cwblhau Ffurflenni Cais ar-lein drwy law ein system e-recriwtio a ellir ei chyrchu drwy law ein gwefan: https://www.southwales-fire.gov.uk/working-with-us/latest-vacancies/. Anogir ymgeiswyr i wirio pob ffolder e-bost am ddiweddariadau a gynhyrchir gan y system.
Os oes angen fersiwn papur, e-bostiwch: personel@decymru-tan.gov.uk

Dylai pob ymgeisydd mewnol sy'n ymgeisio wneud cais trwy eu porth CORE, gan ddewis "Swyddi Gwag Cyfredol" o'r tab ar y chwith.

**Sylwch fod rhaid i chi:**

1. Ymateb i'r 3 Chwestiwn sydd ynghlwm isod, a defnyddiwch y "Dogfen Ateb SDdG" i fewnbynnu iddi. RHAID atodi'r ddogfen hon i'ch cais.

   Arbed y ddogfen uchod dan eich Rhif Yswiriant Gwladol gan y defnyddir hwn fel dynodwr unigryw ar gyfer y panel llunio rhestr fer. PEIDIWCH AG YCHWANEGU EICH ENW.

   **Os na chyflwynir yr uchod** gyda'ch ffurflen gais, ni fydd eich cais yn cael ei roi ar y rhestr fer a bydd yn cael ei wrthod. Mae gennych un cyfle i gyflwyno, felly sicrhewch eich bod yn cadw eich ffurflen a'i gwirio eto cyn ei chyflwyno'n derfynol.

   **NID YDYM YN DERBYN CV FEL RHAN O'R CAIS.**

   **Gwyliwch y fideo sy'n dangos sut i gwblhau cais yn llawn.**

Os fydd gennych unrhyw gwestiynau, mae croeso i chi gysylltu â'n tîm recriwtio Ymladdwr Tân Llawn Amser pwrpasol drwy law e-bost: sddg@decymru-tan.gov.uk

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn Gymraeg a Saesneg ill dau a chroesawn gyfathrebiadau yn y naill iaith â'r llall. Ni chaiff ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg eu trin yn llai ffafriol. Bydd ymgeiswyr sy'n llwyddiannus yng ngham y rhestr fer yn derbyn cyfle i gadarnhau eu dewis iaith ar gyfer cyfweliadau ac asesiadau (gan gynnwys gwaith papur, cyflwyniadau ar lafar a chwestiynau cyfweliadau). Bydd trefniadau yn cael eu cadarnhau yn dilyn gwahoddiad i gyfweliad ac fe all gynnwys Cyfieithu a Chyfieithu ar y Pryd/neu Gyfieithu ar y Pryd.

Mae'r gwasanaeth yn credu yng ngwir werth gweithlu amrywiol ac rydym yn annog yn rhagweithiol ceisiadau o bob sector o fewn y gymuned.